CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 22 Mai, 2017 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Miss N Williams, (Benllech B).

1 PENODI CADEIRYDD - 2017/2018

PENDERFYNWYD – ethol Mr Rhys Owain Jones fel Cadeirydd y Cyngor am 2017/2018.

2 PENODI IS GADEIRYDD – 2017/2018

PENDERFYNWYD – peidio ag ethol Is –Gadeirydd swyddogol ond ethol ar noson y Cyfarfod os bydd y Cadeirydd yn absennol.

3 CYNRYCHIOLWYR Y CYNGOR

PENDERFYNWYD – penodi'r cynrychiolwyr canlynol ar yr amryw gyrff a nodir isod :-

Neuadd Goffa Goronwy Owen	Miss N Williams ac un arall i'w benodi
Un Llais Cymru	Ms G M Davies
Ymddiriedolwyr Stad Tyddyn Tlodion	Mr D W Roberts a Mrs W Owen
Neuadd Gymuned a Chyn - Filwyr	Mr K F Griffiths
Y Fynwent	Cadeirydd, Miss N Williams ac un arall
Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned	Cynrychiolydd i'w benodi
Pwyllgor Personel	Cadeirydd, Mrs W Owen, Ms G M Davies, Miss N Williams.
Partneriaeth Chwarae	Mr K F Griffiths ac un arall
Pwyllgor Cynllun Datblygu Lleol	Cadeirydd, Mr K F Griffiths, a dau arall i'w penodi.
Pwyllgor Teledu Cylch Cyfyng	Cadeirydd, Mr K F Griffiths a dau arall i'w penodi.

4 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr I Williams, (Benllech B).

5 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2017.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD

6 CYNGOR SIR YNYS MON – YMATEB I FATERION PRIFFYRDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth – gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Mon a oedd yn ymateb i faterion priffyrdd a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor Cymuned.

GOHEBIAETH

7 CYNGOR SIR YNYS MON – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr o gadarnhad gan Gyngor Sir Ynys Mon parthed grant o £10,000 tuag at uwchraddio'r sustem Teledu Cylch Cyfyng.

8 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – FFIOEDD ARCHWILIO

Cyflwynwyd er gwybodaeth – eglurhad gan Swyddfa Archwilio Cymru parthed y newid mewn dull codi ffioedd archwilio Cynghorau Cymuned.

9 GRANTIAU A RHODDION.

Cyflwynwyd - Cais am grant gan y canlynol :-

(i) Ysgol Goronwy Owen, Benllech.

PENDERFYNWYD – ceisio rhagor o wybodaeth am natur yr offer awyr agored addas a'r gost berthnasol.

BILIAU A CHYFRIFON

10 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
Photostatic	Llungopio	£8-40
G E Pritchard	Costau Trafeilio	£502-80
G E Pritchard	Ad-daliad cost hysbyseb "Yr Arwydd"	£12-00

11 CYFRIFON.

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Ebrill 2017.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

12 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2017 i ddiwedd mis Ebrill 2017.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

13 CYFARFODYDD Y CYNGOR 2017/2018.

Cyflwynwyd – manylion o ddyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor am 2017/2018.

14 RHESTR PRESENOLDEB 2016/2017.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – Rhestr Presenoldeb aelodau am y flwyddyn 2016/2017.

15 CYFRIFON 2016/2017.

Adroddwyd – fod cyfrifon y Cyngor am 2016/2017 wedi eu harchwilio gan yr Archwiliwr Mewnol a'i cael yn foddhaol. (copi o'r Adroddiad archwilio mewnol blynyddol yn amgaedig)

Cyflwynwyd – copiau o'r Datganiad Llywodraethu Drafft Blynyddol a'r Datganiad Cyfrifon Drafft Blynyddol.

PENDERFYNWYD –

(i) cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Drafft Blynyddol.

(ii) cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon Drafft Blynyddol.

(iii) awdurdodi'r Cadeirydd, y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i arwyddo'r Datganiad Blynyddol Drafft ar ran y Cyngor.

16 YSWIRIANT ZURICH – ADNEWYDDU AM 2017/2018.

Cyflwynwyd – rhestr symiau'r cytundeb yswiriant gyda chwmni Zurich Municipal i ystyried os oedd angen newidiadau mewn symiau, offer a chyfrifoldebau.

PENDERFYNWYD – derbyn y rhestr symiau fel ac yr oedd.

17 LLYFRGELL BENLLECH.

Adroddodd y Clerc nad oedd llawer wedi newid gyda sefyllfa trosglwyddo'r Gwasanaeth Llyfrgell i'r gymuned ers y diweddariad blaenorol.

18 GWEITHIWR TYMHOROL.

Yn dilyn hysbysebion ar y we ac yn y papur bro lleol parthed y swydd o weithiwr tymhorol i'r Cyngor Cymuned, cafwyd hanner dwsin o ymholiadau llafar am wybodaeth a dau gais pendant yn dilyn.

PENDERFYNWYD – fod y Pwyllgor Personel yn gwahodd y ddau ymgeisydd i gyfweliad cyn gynted a phosib.

19 TRAFFIG YN SGWAR BENLLECH.

Trafodwyd y sefyllfa traffig yn y sgwar unwaith yn rhagor a diolchwyd i Miss N Williams gan y Cadeirydd am baratoi'r rhestr wybodaeth ddefnyddiol. Ar ol ystyried penderfynwyd defnyddio'r ffeithiau yma ar gyfer y Cyfarfod Cyhoeddus sydd yn cael ei drefnu gan y Cyngor Sir. Hefyd fe anfonwyd copi o'r wybodaeth i'r Adran Briffyrdd i sylw Mr Huw Percy.

CYNLLUNIO

20 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1. Caniatau :

30C810	50 Bay View Road, Benllech – cyn belled a bod Swyddogion yr Adran Gynllunio'n fodlon ag uchder yr estyniad.
30C336G	Porthllongdy Farm Caravan Site, Traeth Coch

2. Gadael i Swyddogion yr Adran Gynllunio.

30C552A/DE	Craig Tudor, Tynygongl.

21 PENDERFYNIADAU

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

Terfynwyd y cyfarfod am 8-15 yr hwyr.